| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y CYNGOR** |
| DYDDIAD: | **22, HYDREF, 2009** |
| TEITL: | **CRAFFU SWYDDOGAETHAU TROSEDD AC ANHREFN** |
| PWRPAS: | **YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL I GYNNWYS SWYDDOGAETHAU STATUDOL TROSEDD AC ANHREFN** |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO: | **CYNG. JOHN WYN WILLIAMS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - GOFAL.** |
| AWDUR: | **DILYS PHILLIPS,<br>PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

**SWYDDOGAETHAU CRAFFU TROSEDD AC ANHREFN CYFFREDINOL**

1. Daeth Adrannau 19 a 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (fel y'i diwygiwyd), i rym yng Nghymru ar 01.10.09 ac o'r dyddiad hwnnw rhaid i bob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol yng Nghymru gael pwyllgor craffu a throsolwg gyda phŵer i:

   - adolygu neu graffu'r penderfyniadau neu'r gweithrediadau a wneir mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn. `
   - paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Bwrdd ynghylch cyflawni'r swyddogaethau hynny ac i'r pwrpas hwnnw, rhaid cyflenwi copi ar gyfer pob Awdurdod Cyfrifol a phob unigolyn neu gorff Cydweithredol.

2. Yr Awdurdodau Cyfrifol yng Ngwynedd yw: Cyngor Gwynedd; Heddlu Gogledd Cymru; Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru; Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Besti Cadwaladr. Rhagwelir y bydd Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru yn ogystal yn dod yn Awdurdod Cyfrifol ar ôl Ebrill 2010.

3. Yr unigolion neu'r cyrff Cydweithredol yng Ngwynedd yw: cynghorau tref a chymuned yn y Sir; Ymddiriedolaeth GIC Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg leol; perchnogion ysgolion annibynnol yn y Sir; cyrff llywodraethol sefydliadau addysg bellach, Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a landlordiaid cymdeithasol o fewn y Sir.

4. Y rôl yw craffu gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, nid y partner unigol. Mewn gwirionedd, golyga hyn y bydd gan y pwyllgor y pŵer i graffu strategaethau trosedd ac anhrefn a chamddefnyddio sylweddau fydd yn rhaid i'r Awdurdodau Cyfrifol eu paratoi ar y cyd a'u gweithredu dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

**CRAFFU MATERION TROSEDD AC ANHREFN LLEOL.**

5. Yn ogystal, dan y ddeddfwriaeth newydd mae'n ofynnol i'r Cyngor:

   - alluogi unrhyw aelod o'r Cyngor i sicrhau fod mater trosedd ac anhrefn lleol yn cael ei gynnwys ar y rhaglen a'i drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.

- sicrhau fod gan y Pwyllgor y pŵer i baratoi adroddiad neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Bwrdd ynghylch unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol mewn perthynas ag aelod o'r Cyngor.

6. Mae mater trosedd ac anhrefn yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol neu unrhyw ymddygiad arall sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd lleol neu gamddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill. Er mwyn cymhwyso i fod yn fater lleol, rhaid i'r mater effeithio ar y cyfan neu ran o'r ardal etholiadol yr etholwyd yr aelod penodol hwnnw i'w chynrychioli, neu, rhaid i'r mater effeithio ar unigolyn sy'n byw neu sy'n gweithio yn yr ardal honno.

7. Wrth ystyried a ddylid paratoi adroddiad neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Bwrdd yn y sefyllfa hon, gall y Pwyllgor ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr aelod ynghylch pam y dylai wneud hynny. Os na fydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad neu wneud argymhellion, rhaid iddo hysbysu'r aelod am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto. Os bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad neu wneud argymhellion, rhaid iddo baratoi copi o'r adroddiad neu'r argymhellion i'r aelod perthnasol ac ar gyfer yr Awdurdodau Cyfrifol ac unigolion neu gyrff Cydweithredol fel yr ystyria'n briodol.

## <u>REOLIADAU A CHANLLAWIAU</u>

8. Daeth Rheoliadau i rym yng Nghymru ar 01.10.09 er mwyn ymdrin â llywodraethu mewnol y Pwyllgor. Yn y rheoliadau cynhwysir y nodweddion a ganlyn:-

   - rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i ystyried materion trosedd ac anhrefn.
   - bydd y Pwyllgor yn medru cyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau o Awdurdod Cyfrifol neu unigolyn neu gorff Cydweithredol.
   - Nid oes hawl gan aelodau cyfetholedig i bleidleisio heb dderbyn caniatâd y Pwyllgor. Yn ogystal, gall aelodaeth aelod cyfetholedig gael ei chyfyngu i bwnc penodol neu fater o fath arbennig. Gall y Pwyllgor ddiddymu eu haelodaeth ar unrhyw adeg.
   - Rhaid i Awdurdodau cyfrifol ac unigolion neu gyrff cydweithredol ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor pan ofynnir amdani o fewn y terfynau amser y gofynnir amdani neu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib.
   - Byddai'r fath wybodaeth yn cael ei gwneud yn anhysbys, oni bai bod angen enwi neu ei bod yn briodol enwi er mwyn i'r Pwyllgor fedru gweithredu'i bwerau. Gellir eithrio gwybodaeth os yw'n debygol y gall beryglu achosion cyfreithiol neu weithrediad yr Awdurdod Cyfrifol neu'r unigolyn neu'r corff Cydweithredol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.
   - Gall y Pwyllgor ofyn i swyddogion neu weithwyr neu Awdurdodau Cyfrifol ac unigolion neu gyrff Cydweithredol ddod ger ei fron (gyda rhybudd rhesymol), er mwyn ateb cwestiynau.

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau drafft ynghylch craffu materion trosedd ac anhrefn. Argymhellir yn y canllawiau y dylid sefydlu protocolau rhwng y Cyngor a'i bartneriaid yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn ymdrin â materion megis sut y dylid ymateb i geisiadau am wybodaeth gan y Pwyllgor Craffu a rheoli llwyth gwaith sefydliad sy'n bartner ac sy'n gweithio ar draws ardal mwy nag un cyngor. Argymhellir yn y Canllawiau y dylai o leiaf un aelod o'r pwyllgor fod yn aelod o Awdurdod yr Heddlu yn ogystal.

**ARGYMHELLIAD.**

10. Adroddwyd ar y materion uchod i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 29, Medi, 2009. Gan nodi y byddai'r dyletswyddau newydd yn ychwanegu at lwyth gwaith y pwyllgor, eu hargymhelliad oedd :-

    10.1 Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Gofal i gynnwys y swyddogaeth statudol i graffu materion trosedd ac anrhefn gan ymgynnull i'r diben hwn o leiaf unwaith y flwyddyn.

    10.2 Gwahodd cynghorydd sy'n cynrychioli Gwynedd ar Awdurdod yr Heddlu i gyfarfodydd y pwyllgor fel sylwebydd.

    10.2 Cyfethol dau aelod ychwanegol (heb bleidlais) i'r pwyllgor, y naill i gynrychioli Heddlu Gogledd Cymru a'r llall i gynrychioli'r bwrdd iechyd lleol.

11. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal a restrir ym mharagraff 10.1 - 10.3 ac awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud diwygiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor.